Swyddog Cyfathrebu


| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Cyfathrebu |
| Is-adran: | Cyfathrebu |
| Yn atebol i'r canlynol: | Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau |
| Lleoliad: | Swyddfa CCW yn Birmingham neu Gaerdydd yn unol â pholisi gweithio cyfunol CCW |

## Cyfathrebu Corfforaethol

Mae tîm cyfathrebu CCW yn gyfrifol am weithgareddau cyfathrebu corfforaethol y sefydliad, gan gynnwys cyfathrebu strategol, rheoli enw da, cyfryngau rhagweithiol ac adweithiol, cyfathrebu mewn argyfwng, marchnata, cyfathrebu digidol ac ymgysylltu gwleidyddol.

Diben rôl y swyddog cyfathrebu yw llunio a darparu negeseuon cyfathrebu effeithiol sy'n cefnogi gweithgarwch ymgyrchu CCW fel y nodir yn y Blaenraglen Waith.

## Gwybodaeth Sefydliadol




## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Allweddol

## Cyfathrebu

- Darparu gwasanaeth cyfathrebu proffesiynol i'r sefydliad
- Gweithio ar y cyd â chydweithwyr CCW ar bob lefel i lunio a darparu negeseuon cyfathrebu effeithiol a mesuradwy sydd wedi'u targedu sy'n hyrwyddo mentrau ac ymgyrchoedd cenedlaethol a rhanbarthol
- Sicrhau bod polisïau ac ymgyrchoedd CCW yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy nodi a defnyddio'r holl sianeli cyfathrebu priodol. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu eitemau newyddion, deunydd cysylltiadau cyhoeddus, podlediadau, cynnwys digidol a chyfryngau cymdeithasol sy'n greadigol a rhagweithiol.
- Gweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid trydydd parti i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydweithredu
- Ymateb yn briodol i ymholiadau'r cyfryngau sy'n berthnasol i feysydd busnes/ymgyrchu diffiniedig, gan friffio'r wasg a pharatoi llefarwyr yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ymatebolrwydd i ymholiadau'r cyfryngau y tu allan i oriau swyddfa arferol.
- Ymateb yn gyflym ac yn arloesol i ddatblygiadau sy'n cael eu gyrru'n allanol, gan sicrhau bod negeseuon CCW yn cael eu clywed yn glir lle mae cyfleoedd yn codi
- Helpu i nodi, adeiladu a chynnal ymgysylltiad a dylanwad gyda rhanddeiliaid gwleidyddol pob plaid ar lefel briodol ac ar wahanol sianeli i gyflawni nodau CCW fel y nodir yn y Blaenraglen Waith.
- Cefnogi ymrwymiad CCW i'r Gymraeg drwy nodi cyfleoedd cyfieithu
- Cynhyrchu dogfennau, cyhoeddiadau a thempledi sy'n dangos CCW mewn goleuni cadarnhaol. Sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau allanol yn hygyrch ac yn cyd-fynd â chanllawiau ein brand.
- Gweithio ar y cyd â chydweithwyr a phartneriaid allanol i gyflwyno digwyddiadau sy'n sicrhau effaith a mwynhad ac sy'n gosod CCW fel arweinydd y diwydiant wrth rannu arfer gorau
- Hyrwyddo ac integreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn eich holl waith. Ategu holl fentrau, polisïau a gweithdrefnau EDI y sefydliad, a chydymffurfio â nhw.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a nodir yn y fanyleb hon, efallai y bydd angen i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol.

## Rheoli adnoddau

### Adnoddau ariannol (cyllidebau y mae deiliad y swydd yn gyfrifol amdanynt)

- Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddarparu gweithgarwch cyfathrebu a marchnata cost-effeithiol, gan ddefnyddio'r arian a ddyrannwyd yn y gyllideb gyfathrebu yn effeithlon. Disgwylir iddo

sicrhau a gwerthuso gweithgarwch cyfathrebu er mwyn dangos yr effaith fwyaf posibl ac adenillion o fuddsoddi.
- Bydd deiliad y swydd hefyd yn rheoli perthnasoedd â chyflenwyr ac asiantaethau allanol, gan gaffael, comisiynu a briffio cymorth arbenigol ar gyfer sawl prosiect a monitro gwariant parhaus ymgyrchoedd yn erbyn y gyllideb, gan gadw cofnodion cywir.

## Rheoli pobl (staff y mae deiliad y swydd yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt)

- Ni fydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli staff yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd deiliad y swydd yn darparu arweiniad, cefnogaeth a chyfarwyddyd arbenigol i aelodau'r tîm a chydweithwyr.

## Cyfarpar

Bydd deiliad y swydd yn cael ffôn symudol a gliniadur sy'n cynnwys y rhaglenni angenrheidiol. Mae gan y tîm cyfathrebu gamera ac offer ar gyfer cynhyrchu podlediadau.

## Cysylltiadau a Chyfathrebu

### Mewnol

- Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr CCW ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys rhywfaint o gyswllt â'r Prif Swyddog Gweithredol a'r tîm Gweithredol, Cadeirydd CCW ac aelodau'r Bwrdd.

### Allanol

- Bydd deiliad y swydd mewn cyswllt rheolaidd â'r cyfryngau a sefydliadau rhanddeiliaid allanol er mwyn cyfleu negeseuon ymgyrchoedd CCW yn effeithiol a chyflwyno digwyddiadau effeithiol.
- Bydd deiliad y swydd mewn cyswllt rheolaidd â rhanddeiliaid gwleidyddol.
- Bydd deiliad y swydd hefyd yn rheoli perthnasoedd â chyflenwyr ac asiantaethau o wahanol fathau, gan gomisiynu a chaffael gwasanaethau wrth sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gyflwyno yn unol â brîff, ar amser ac o fewn y gyllideb.